Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd	Swyddog Cymorth Cymunedol	**Yn gyfrifol am**	Ddim yn berthnasol
Maes Gwasanaeth	Plismona Cymdogaeth	**Gradd / Rheng**	4
Maes Busnes	Gwasanaethau Plismona Lleol	**Penodol/Hyblyg/ Maes**	Maes
Adran	Plismona Ardal Leol	**Lefel Fetio**	Fetio Recriwtio (RV)
Yn atebol i	Rhingyll Cymdogaeth	**Dyddiad Adolygu**	Rhagfyr 2020

CRYNODEB O'R SWYDD

Bod yn rhan o Dîm Plismona Cymdogaeth mewn ardaloedd daearyddol lleol penodol. Bod yn weladwy, yn hygyrch, yn adnabyddus yn lleol ac yn wybodus ynghylch yr ardal rydych yn gweithio ynddi.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatrys y problemau sydd o'r pwys mwyaf i'r gymuned; er mwyn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel ac i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gan swyddogion cymorth cymunedol yng Ngwent bwerau sylweddol dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu i'w helpu nhw i wneud y gwaith sy'n ofynnol gan y rôl.

PRIF GYFRIFOLDEBAU (CYFANSWM: 80%)

Sylwer: Bwriad y datganiadau hyn yw disgrifio natur gyffredinol y swydd ac ni fwriedir iddynt fod yn rhestr lawn o'r holl gyfrifoldebau, sgiliau a dyletswyddau.

Prif Weithgareddau/Elfennau		**Cyfanswm: 80%**
1	Cynnal patrolau cerdded amlwg mewn iwnifform mewn ardaloedd penodol, ymateb i alwadau a cheisiadau am gymorth, defnyddio pwerau fel y bo angen i ymdrin yn deg â digwyddiadau o niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad troseddol er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch y cyhoedd.	**30%**
2	Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid a mabwysiadu dull gwaith sy'n seiliedig ar ddatrys problemau (OSARA), er mwyn eu datrys yn y modd mwyaf effeithiol a chynaliadwy sy'n ymateb i anghenion y gymuned.	**15%**
3	Rhoi cyngor Atal Trosedd a Diogelwch Cymunedol i aelodau mwyaf bregus ein cymuned, gan gynnwys dioddefwyr sydd wedi dioddef trosedd fwy nag unwaith a'r bobl fwyaf agored i niwed. Bydd y gwaith hwn yn unol â Strategaeth Atal Trosedd Gwent i gynorthwyo i ddatrys problemau a lleihau trosedd.	**10%**
4	Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd dan arweiniad Heddlu ac Asiantaeth, gweithio o fewn terfynau awdurdod priodol.	**2%**
5	Cefnogi Swyddogion Heddlu trwy fod yn bresennol mewn hysbysiadau o drosedd sydd o fewn cylch gwaith plismona cymdogaeth, cynnal ymchwiliad dechreuol a diogelu safle trosedd yn unol â gofynion ymchwilio a gofynion cyfreithiol. Bod yn bresennol mewn llysoedd barn i gyflwyno tystiolaeth yn unol â deddfwriaeth.	**5%**
6	Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, ysgolion, cynghorwyr lleol ac aelodau etholedig a KINS i sicrhau cyswllt rheolaidd gyda'r gymuned.	**5%**
7	Bod yn weladwy a chynorthwyo Swyddogion Heddlu mewn digwyddiadau cyhoeddus, yn ôl y gofyn ac yn unol â chyfarwyddyd y prif swyddog.	**3%**
8	Cynnal chwiliadau o unigolion neu eiddo personol yn unol â deddfwriaeth, polisi a	**2%**

	gweithdrefnau perthnasol.	
9	Cynnal gwiriadau traffig priodol yn unol â phwerau penodedig ac yn unol â deddfwriaeth a pholisi.	**1%**
10	Gweithredu fel pwynt cyswllt i aelodau'r gymuned gan hybu hygyrchedd.	**3%**
11	Casglu a chyflwyno adroddiadau cudd-wybodaeth, naill ai ar gais trwy'r broses pennu tasgau neu o ganlyniad i weithgarwch dyddiol. Helpu i adnabod unigolion yn y gymuned sy'n addas i gael eu cyfeirio i'r uned ffynhonnell pwrpasol.	***2%***
12	Cwblhau gweithgareddau a thasgau gofynnol y swydd yn brydlon a sicrhau bod yr holl waith a wneir yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau/gweithdrefnau'r llu.	**1%**
13	Cyfathrebu'n effeithiol gyda chwsmeriaid mewnol ac allanol er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon gan sicrhau cyfrinachedd bob amser.	**1%**

TASGAU CYFFREDINOL – LEFEL STAFF (CYFANSWM: 20%)

- **Cyllid**
  - Sicrhau bod gwaith contractau a phrynu yn yr adran yn gost effeithiol.
  - Ceisio arbed costau i'r adran / maes busnes trwy effeithlonrwydd ac awtomatiaeth.

- **Ansawdd a Chydymffurfiaeth**
  - Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r llu.
  - Sicrhau gwasanaeth a chymorth effeithiol i'r cwsmer yn unol â safonau gwasanaeth cytûn.
  - Cyfrannu at weithgareddau Meincnodi a cheisiadau am arolygon.
  - Rhaid dangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid iddynt ddangos eu bod yn gallu cyfrannu at amgylchedd gwaith agored, teg lle na chaniateir ymddygiad amhriodol. Rhaid iddynt beidio ag arddangos unrhyw dystiolaeth o debygolrwydd o gyfrannu mewn unrhyw ffordd at fwlio yn y gweithle neu ymddygiad rhywiaethol neu hiliol.
  - Cadw cofnodion yn gyfrinachol, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thrafod yn sensitif ac yn unol â Rheoliadau Cyffredinol ar Reoli Data.

- **Gweinyddol / Amrywiol**
  - Gweinyddu cyffredinol.
  - Cyflawni unrhyw ddyletswyddau sy'n gymesur â graddfa a gofynion sgiliau'r swydd.
  - Bod yn bresennol mewn hyfforddiant gofynnol.
  - Cymryd rhan yn y broses arfarnu perfformiad gan gynnwys y gofyniad am ddatblygiad proffesiynol parhaus.
  - Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau o fewn a thu allan i ardal y llu.

- **Iechyd, Diogelwch a chydymffurfiaeth statudol**
  - Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.
  - Bod yn ymwybodol o ddiogelwch bob amser a gweithredu mewn modd diogel.
  - Cymryd gofal rhesymol o'ch diogelwch eich hun ac eraill; cydweithredu gyda rheolwyr i gydymffurfio â dyletswyddau iechyd a diogelwch statudol; hysbysu am ddigwyddiadau, damweiniau, diffygion a damweiniau fu bron a digwydd.
  - Defnyddio systemau sydd wedi cael eu datblygu i hybu iechyd a diogelwch yn Heddlu Gwent.

- **Lles**
  - Ymgysylltu a chefnogi Agenda Lles y Llu.
  - Gwneud eich gorau i sicrhau eich lles corfforol a seicolegol eich hun ble bynnag y bo'n bosibl.
  - Herio gwahaniaethu a stigma.
  - Cefnogi lles seicolegol a chorfforol eich cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathetig mewn plismona.

- **Cynaliadwyedd**
  - Mae cyfrifoldeb ar bob cyflogai i'n helpu i gyflawni'r uchelgais hwn a chyfrannu at leihau ei ôl troed carbon ei hun, yn ogystal â gweithio i gyflawni amcanion adrannol a chyfundrefnol, yn unol â'n Strategaeth Cynaliadwyedd.

TASGAU PENODOL ERAILL AR GYFER Y SWYDD HON

- Mae'n rhaid i bob darpar aelod o staff Heddlu Gwent ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid iddynt ddangos eu bod yn gallu cyfrannu at amgylchedd gwaith agored, teg lle na chaniateir ymddygiad amhriodol. Rhaid iddynt beidio ag arddangos unrhyw dystiolaeth o debygolrwydd o gyfrannu mewn unrhyw ffordd at fwlio yn y gweithle neu ymddygiad rhywiaethol neu hiliol.

- Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio sifftiau. Mae'r sifftiau dros saith diwrnod yr wythnos rhwng 08:00 a 22:00, a thelir lwfans sifftiau ar eu cyfer.

- Sylwer: Darperir y swydd-ddisgrifiad hwn i roi amlinelliad eang o weithgareddau'r swydd hon. Gall Heddlu Gwent ofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o reidrwydd i'w gweld yn y swydd-ddisgrifiad ond sy'n gymesur â graddfa'r swydd. Fel un o gyflogeion Heddlu Gwent, gall fod yn ofynnol i chi dderbyn unrhyw swydd sy'n briodol i'ch gradd neu weithio mewn unrhyw sefydliad o fewn ffiniau Heddlu Gwent er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn effeithlon ac yn effeithiol.

GWYBODAETH, SGILIAU A GALLUOEDD

Nodwch y cyrhaeddiad addysgol, profiad blaenorol, gwybodaeth benodol, sgiliau a galluoedd sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd hon.

Cyrhaeddiad addysgol a/neu brofiad perthnasol **Dull asesu:** • Profion Ar-lein / Ffurflen Gais / Cyfweliad	• Rhaid meddu ar gymhwyster TGAU gradd A-C mewn Mathemateg a Saesneg, neu raid llwyddo yn y prawf rhesymu geiriol a rhifiadol ar-lein. • Rhaid llwyddo yn yr holiadur Crebwyll Sefyllfa ac Arddull Ymddygiadol ar-lein. • Trwydded yrru DU gyfredol ar gyfer gyrru car nad yw'n awtomatig (mae gofyn i ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar un eisoes lwyddo mewn prawf gyrru ar eu cost eu hunain a rhaid iddynt feddu ar drwydded yrru DU lawn o fewn 24 mis i ddechrau eu cyflogaeth). • Rhaid bod gennych chi brofiad o ymdrin ag aelodau'r cyhoedd. • Rhaid bod gennych chi brofiad o ysgrifennu adroddiadau a dogfennau. • Rhaid bod gennych chi brofiad o flaenoriaethu a rheoli eich baich gwaith eich hun. • Rhaid bod gennych chi brofiad o ddatrys problemau a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol. • Rhaid i chi allu dangos eich bod yn gallu gwrando, rhesymu a lleddfu sefyllfaoedd, yn arbennig sefyllfaoedd o wrthdaro. • Cymraeg Lefel 1 (rhoddir hyfforddiant). Mae bod yn rhugl yn y Gymraeg

	yn ddymunol.
Gwybodaeth a sgiliau **Dull asesu:** • Ffurflen Gais / Cyfweliad	• Rhaid i chi fod yn ymwybodol o gymunedau a diwylliannau amrywiol. • Rhaid i chi allu dangos gwybodaeth ymarferol am becynnau Microsoft Office gan gynnwys Excel a Word. • Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.
• **Gofynion eraill**	
Rydym yn emosiynol ymwybodol **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn trin pobl eraill gyda pharch, goddefgarwch a thrugaredd • Rwyf yn cydnabod ac yn parchu amrywiaeth o wahanol safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau o fewn gorchwyl y gyfraith. • Rwyf yn aros yn ddigyffro ac yn meddwl am y ffordd orau i reoli sefyllfa pan fyddaf yn cael fy nghythruddo. • Rwyf yn deall fy emosiynau fy hun ac rwy'n gwybod pa sefyllfaoedd allai effeithio ar fy ngallu i ymdrin â straen a phwysau. • Rwyf yn gofyn am gymorth pan fydd ei angen arnaf. • Rwyf yn deall gwerth amrywiaeth. • Rwyf yn cyfathrebu mewn iaith glir a syml er mwyn i bobl eraill fy neall yn hawdd. • Rwyf yn ceisio deall ystyriaethau a phryderon pobl eraill hyd yn oed pan nad ydynt yn gallu mynegi eu hunain yn glir.
Rydym yn derbyn perchnogaeth **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn canfod problemau ac yn ymateb iddynt. • Rwyf yn ymdrin â thasgau yn frwdfrydig, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd. • Rwyf yn ceisio adborth yn rheolaidd i ddeall ansawdd fy ngwaith ac effaith fy ymddygiad. • Rwyf yn gwybod lle y gallaf helpu pobl eraill ac yn ymgymryd â thasgau ychwanegol yn frwd er mwyn rhoi cymorth iddynt, ble y bo'n briodol • Rwyf yn rhoi adborth i bobl eraill ac rwyf yn sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall ac yn adeiladol. • Rwyf yn derbyn cyfrifoldeb dros fy ngweithredoedd fy hun; rwyf yn cymryd cyfrifoldeb dros fy ngweithredoedd fy hun. Rwyf yn gwireddu fy addewidion ac yn gwneud yr hyn rwyf yn dweud y byddaf yn ei wneud. • Byddaf yn cyfaddef os wyf wedi gwneud camgymeriad ac yn cymryd camau i unioni hyn. • Rwyf yn dangos fy mod yn falch o gynrychioli'r gwasanaeth heddlu. • Rwyf yn deall fy nghryfderau fy hun a meysydd i'w datblygu ac yn cymryd cyfrifoldeb dros fy nysgu fy hun i lenwi unrhyw fylchau.
Rydym yn cydweithio **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni tasgau, gan roi cymorth a chefnogaeth barod i gydweithwyr. • Rwyf yn hawdd mynd ataf ac yn esbonio pethau'n dda er mwyn i bawb ddeall. • Rwyf yn cymryd amser i ddod i adnabod pobl eraill a'u safbwyntiau er mwyn meithrin cydberthynas.

	• Rwyf yn trin pobl â pharch fel unigolion ac yn rhoi sylw i'w hanghenion a'u pryderon penodol. • Rwyf yn agored a thryloyw yn fy nghydberthnasau â phobl eraill. • Rwyf yn sicrhau fy mod yn cyfathrebu mewn ffordd glir a phriodol.
Rydym yn cyflawni, cefnogi ac ysbrydoli **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn ymgymryd â thasgau heriol i helpu i wella'r gwasanaeth yn barhaus ac i gefnogi fy nghydweithwyr. • Rwyf yn deall sut mae fy ngwaith yn cyfrannu at y gwasanaeth heddlu ehangach. • Rwyf yn deall bod darparu gwasanaethau effeithlon yn rhan o'm cyfrifoldeb cyfunol. • Rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol dros sicrhau fy mod yn gweithio'n effeithiol i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, yn unigol a gyda phobl eraill. • Rwyf yn gydwybodol, yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau ac i oresgyn unrhyw rwystrau a allai atal neu amharu ar y ddarpariaeth honno. • Rwyf yn cefnogi defnyddio adnoddau'n effeithlon er mwyn creu'r gwerth gorau a chyflawni'r effaith gywir. • Rwyf yn sicrhau fy mod yn ymwybodol o newidiadau mewn amgylcheddau mewnol ac allanol. • Rwyf yn gosod esiampl ar gyfer yr ymddygiad rwyf yn disgwyl ei weld gan bobl eraill ac yn gweithredu er budd pennaf y cyhoedd a'r gwasanaeth heddlu.
Rydym yn dadansoddi'n feirniadol **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn deall yr angen i feddwl yn feirniadol am broblemau. Rwyf yn deall gwerth dadansoddi a phrofi yn y maes plismona. • Rwyf yn prosesu gwybodaeth yn gyflym ac yn gywir. • Rwyf yn gallu didoli gwybodaeth a phenderfynu a yw'n amherthnasol neu'n berthnasol ac rwyf yn gallu penderfynu a yw'n bwysig. • Rwyf yn datrys problemau'n rhagweithiol trwy ddeall y rhesymau drostynt, gan ddefnyddio'r hyn mae tystiolaeth wedi fy nysgu, ac yn defnyddio fy mhrofiadau i gymryd camau gweithredu. • Rwyf yn cyfeirio at weithdrefnau a chynseiliau yn ôl yr angen cyn gwneud penderfyniadau. • Rwyf yn cydbwyso rhesymau dros ac yn erbyn camau gweithredu posibl, yn meddwl am risgiau posibl a defnyddio'r ffordd hon o feddwl i lywio fy mhenderfyniadau. • Rwyf yn adnabod bylchau ac anghysondebau mewn gwybodaeth ac yn meddwl am y goblygiadau posibl. • Rwyf yn gwneud penderfyniadau yn unol â'n cenhadaeth, ein gwerthodd a'r Cod Moeseg.
Rydym yn arloesi ac yn cadw meddwl agored **Dull asesu:** • Cyfweliad	• Rwyf yn dangos fy mod yn agored i syniadau, canfyddiadau a dulliau gweithio sy'n newid. • Rwyf yn rhannu awgrymiadau gyda chydweithwyr, yn lleisio barn i wella dulliau ac arferion gweithio presennol. • Rwyf yn myfyrio'n gyson ar fy ffordd fy hun o weithio ac yn adolygu prosesau a gweithdrefnau'n achlysurol i wneud gwelliannau parhaus. • Rwyf yn addasu i newid ac yn hyblyg yn ôl yr angen gan annog pobl eraill i wneud yr un peth. • Rwyf yn dysgu yn sgil fy mhrofiadau ac nid wyf yn cael fy nylanwadu'n ddiangen gan ragdybiaethau.

STRWYTHUR Y SEFYDLIAD NEU'R ADRAN

Prif Uwch-arolygydd

↓

Uwch-arolygydd

↓

Prif Arolygydd

↓

Arolygydd Plismona Lleol

↓

Rhingyll Cymdogaeth

↓

Swyddog Cymorth Cymunedol